

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>9 GORFFENNAF 2019</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Mair Williams</b>  <b>Swyddog Datblygu Iaith</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i sylw'r Aelodau a thynnu sylw at faterion sydd yn codi er mwyn i'r aelodau gael trafodaeth bellach a chynnig argymhellion ar gyfer unrhyw gamau datblygol.</b>

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy."

1.2 Mae'r Safonau penodol sydd yn ymwneud efo adrodd blynyddol (158, 164 ac 170) yn gofyn yn benodol i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
  - i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
  - ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
  - iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
  - iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth yma, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth o'r camau penodol a gymerir i weithredu'r Safonau.

- 1.4 Mae'r adroddiad a atodir felly yn Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hyd at Fawrth 2019, ac mae'n cynnwys y wybodaeth benodol y gofynnir amdano yn Safonau 158, 164 ac 170 yn ogystal ag ychydig o wybodaeth ychwanegol.

## **2 MATERION YN CODI O'R ADRODDIAD**

### **Gwybodaeth am sgiliau iaith staff:**

- 2.1 Mae'r data sydd yn cael ei adrodd yn cynnwys gwybodaeth am staff o bob adran o'r Cyngor, ac eithrio staff addysgu yr adran Addysg. Nid yw ychwaith yn cynnwys staff sydd yn gweithio i GwE a'r Asiantaeth Cefnffyrdd (NMWTRA).
- 2.2 Cesglir y wybodaeth yn uniongyrchol gan Benaethiaid yr adrannau perthnasol, ac eithrio'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion, lle y ceir y wybodaeth drwy eu cofnodion blynyddol (yr STF).
- 2.3 Eleni, casglwyd gwybodaeth ar gyfer tua 800 o aelodau staff yn fwy nag y llynedd.
- 2.4 Drwy waith y dynodiadau iaith, mae gennym bellach wybodaeth fanylach am bron i 1,500 o staff y Cyngor ac mae'r gwaith o gynnig hyfforddiant i unigolion sydd ei angen yn digwydd yn barhaus.

### **Hyfforddiant:**

- 2.5 Mae'r data yn dangos bod cynnydd bychan wedi bod yn nifer y cyrsiau sydd yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog neu yn Saesneg ers y flwyddyn flaenorol. Gallai hyn fod yn sesiwn Saesneg o gwrs cyfatebol yn Gymraeg neu yn gyrсияu arbenigol lle mae angen prynu gwasanaeth allanol.
- 2.6 Byddwn yn cynnal dadansoddiad manylach o'r ffigyrau yma a'r rhesymau am y newid, er mwyn gweld a oes angen cymryd unrhyw gamau i newid y sefyllfa.

### **Swyddi:**

- 2.7 Mae'r safon yn gofyn i ni nodi faint o swyddi sydd yn cael eu hysbysebu lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Gan fod rhyw lefel o allu ieithyddol yn ofynnol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor, nodir yma bob swydd sydd wedi eu hysbysebu dros y cyfnod dan sylw.
- 2.8 Mae trefn newydd y dynodiadau iaith, sydd yn gofyn i reolwyr bennu'r gwahanol lefelau iaith priodol wrth hysbysebu a phenodi i swyddi newydd, yn golygu y dylem, yn y dyfodol, fod yn gallu casglu data manylach na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd ar y gwahanol gategorïau o swyddi.

## **3 ARGYMHELLION**

### **3.1 Gofynnir i'r aelodau:**

- dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol er gwybodaeth.
- cael trafodaeth am y materion a nodir uchod ac unrhyw faterion eraill sydd yn codi cwestiynau
- Cynnig argymhellion ar unrhyw gamau datblygol.